**Cofnodion wedi'u Cadarnhau o**
**Cyfarfod Eithriadol Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru**
**a gynhaliwyd yn gyhoeddus**
**Dydd Mawrth 16 Rhagfyr 2025 am 9:00am.**
Trwy Microsoft Teams

| | | |
|---|---|---|
| **Aelodau:** | | |
| Ian Green (Cadeirydd) | (IG) | Cadeirydd Annibynnol, Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru |
| Susan Elsmore | (SE) | Aelod Lleyg |
| Philip Kloer | (PK) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda |
| Paul Mears | (PM) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg |
| Shameem Nawaz | (SN) | Aelod Lleyg |
| Nicola Prygodzicz | (NP) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan |
| Mandy Rayani | (MR) | Aelod Lleyg |
| Nia Roberts | (NR) | Aelod Lleyg |
| Carol Shillabeer | (CS) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| Paul Worthington | (PW) | Aelod Lleyg |
| **Dirprwyon:** | | |
| Nicola Johnson | (NJ) | Cyfarwyddwr Gweithredol Cynllunio, Perfformio a Chomisiynu, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys |
| **Aelod Cyswllt:** | | |
| Huw George | (HG) | Prif Gomisiynydd Dros Dro |
| **Hefyd yn Bresennol:** | | |
| Carole Bell | (CB) | Cyfarwyddwr Nyrsio ac Ansawdd |
| Adrian Clarke | (AC) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Iechyd Meddwl, Anableddau Dysgu a Grwpiau Agored i Niwed |
| Iolo Doull | (ID) | Cyfarwyddwr Meddygol |
| Aaron Fowler | (AF) | Ysgrifennydd y Pwyllgor a Dirprwy Gyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol |
| Georgina Galletly | (GG) | Cyfarwyddwr Cynllunio a Strategaeth Gorfforaethol |
| Stacey Taylor | (ST) | Dirprwy Brif Gomisiynydd a Chyfarwyddwr Cyllid a Gwerth |
| Melanie Wilkey | (MW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Arbenigol |
| Ross Whitehead | (RW) | Cyfarwyddwr Comisiynu ar gyfer Gwasanaethau Ambiwlans ac 111 |
| **Gwesteion** | | |
| Matthew Edwards | (ME) | Ysgrifennydd Pwyllgor Cynorthwyol Dros Dro |
| Robert Mahoney | (RM) | Dirprwy Gyfarwyddwr Cyllid, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| **Arsylwyr:** | | |
| Emma Wood | (EW) | Prif Swyddog Gweithredol, Ymddiriedolaeth Brifysgol GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru |
| **Ymddiheuriadau:** | | |
| Abigail Harris | (AH) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe |
| Angela Mutlow | (AM) | Cyfarwyddwr Gweithrediadau, Llais |
| Suzanne Rankin | (SR) | Prif Swyddog Gweithredol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |

CONFIRMED

| **Cyf y Cofnod** | **Eitem ar yr Agenda** |
|---|---|
| | **1. Materion Rhagarweiniol** |
| JCC25/099 | **1.1 Croeso a Chyflwyniadau**<br>Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau a'r mynychwyr i gyfarfod Eithriadol y Cyd-bwyllgor Comisiynu a gynhaliwyd yn gyhoeddus a gwnaed cyflwyniadau.<br><br>Nid oedd unrhyw wrthwynebiadau i recordio'r cyfarfod a fyddai ar gael ar wefan Cyd-bwyllgor Comisiynu GIG Cymru (CBCGC) yn dilyn y cyfarfod. Nodwyd bod cworwm. |
| JCC25/100 | **1.2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb**<br>Nodwyd ymddiheuriadau am absenoldeb fel yr uchod. |
| JCC25/101 | **1.3 Datganiadau o Fuddiant**<br>Ni wnaed datganiadau o fuddiant ychwanegol yn ymwneud â'r eitemau i'w trafod ar yr agenda. |
| | **2. Eitemau i'w Cymeradwyo** |
| JCC25/102 | **2.1 Adroddiad Fframwaith Cartrefi Gofal**<br>Cafwyd yr Adroddiad Fframwaith Cartref Gofal. Nododd yr aelodau:<br>• Fod y papur yn darparu gwybodaeth ychwanegol i aelodau ar fanteision, ariannol ac anariannol, buddsoddi yn yr Opsiwn 4 arfaethedig a fyddai'n gofyn am adnodd staffio ychwanegol CBCGC.<br>• Y trafodaethau blaenorol a gafwyd ynglŷn ag adnodd CBCGC sydd wedi cefnogi'r Fframwaith yn hanesyddol.<br>• Y costau sydd wedi'u hosgoi yn barod ac y byddai cyfleoedd osgoi costau pellach yn debygol o fod yn fwy na'r buddsoddiad y gofynnwyd amdano.<br>• Sut roedd y Fframwaith wedi tyfu o ran cyfaint dros y blynyddoedd diwethaf.<br>• Yr angen i wneud penderfyniad oherwydd diwedd y Fframwaith presennol.<br>• Y camau nesaf a oedd yn cynnwys:<br>  o CBCGC yn gweithio gyda Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (NWSSP) i gael "estyniad mewn perygl" o'r Cytundeb Fframwaith presennol.<br>  o CBCGC/Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru yn cydweithio â thimau comisiynu'r Bwrdd Iechyd i ddatblygu Cytundeb Fframwaith Cartrefi Gofal newydd mewn pryd ar gyfer ei lansio ym mis Ebrill 2027.<br><br>Trafododd yr aelodau:<br>• Yr ystod o opsiynau a'u manteision.<br>• Cyfrifoldebau cyfredol CBCGC am ansawdd y gwasanaethau a'r Byrddau Iechyd ar gyfer cydlynu gofal eu poblogaeth.<br>• Tirwedd newidiol GIG Cymru o ran rheoliadau cyllido a chaffael ers gwneud penderfyniadau hanesyddol blaenorol.<br>• Y gwahaniaeth o ran y Fframwaith Ysbytai a'r Fframwaith Cartrefi Gofal o ran adolygu, prosesau archwilio a safonau clinigol.<br>• Y risg y bydd gwahanol Fyrddau Iechyd yn gosod cleifion am brisiau gwahanol pe na bai'r Fframwaith yn cael ei ddefnyddio y tu hwnt i fis Mawrth (fel yr oedd yn wir o'r blaen).<br>• Cefnogi ateb cynaliadwy, unwaith dros Gymru ar ran yr holl Fyrddau Iechyd, gan wneud y mwyaf o arbedion maint a lleihau dyblygu.<br>• Yr angen am sgwrs ynghylch Gofal Iechyd Parhaus a Gofal Nyrsio a Ariennir i sicrhau bod dull cydgysylltiedig ar draws CBCGC ac o amgylch cyfleoedd i staff y Bwrdd Iechyd weithio gyda thîm CBCGC i gefnogi'r prosesau hyn.<br>• Byddai angen darparu'r sicrwydd hwnnw ynghylch y gwelliant mewn canlyniadau, yr uchelgais i gynhyrchu arbedion a chynnwys costau i'w cyflawni gan Opsiwn 4. Gan nodi y byddai angen darparu cyllid ar gyfer Opsiwn 4 mewn |

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | perygl, cytunwyd y byddai CBCGC yn monitro arbedion i sicrhau bod y buddion sy'n deillio o Opsiwn 4 a ariennir yn fwy na'r cyllid sydd i'w ddarparu.<br>• Defnyddio'r Gweithgor Cyllid i ddilysu'r gwaith a'r Grŵp Arweinyddiaeth Comisiynu Cydweithredol (CCLG) i sicrhau goruchwyliaeth weithredol ar gyflawni Opsiwn 4 gyda chynnydd i'w adrodd drwy'r Cydbwyllgor.<br>• Byddai cynlluniau yn cael eu datblygu yn nodi'r gwelliant angenrheidiol mewn canlyniadau, sut y bydd arbedion ariannol yn cael eu cynhyrchu a'u monitro, a sut y bydd costau'n cael eu cynnwys i'w hadolygu gan y CCLG ac adrodd dilynol i'r Cydbwyllgor.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Nodi** manteision y buddsoddiad o fewn y Fframwaith Cartref Gofal.<br>• **Cymeradwyo** rhyddhau cyllid i gefnogi cyflawni Opsiwn 4 fel cyfle gwario i arbed, gan nodi'r risgiau sy'n gysylltiedig â pheidio â chymeradwyo'r argymhelliad. |
| JCC25/103 | **2.2 Adfer Ariannol Comisiynu Arbenigol 2025-26 - Rheoli Gweithgarwch**<br>Cafwyd Adroddiad Rheoli Gweithgaredd - Adfer Ariannol Comisiynu Arbenigol 2025-26. Nododd yr aelodau:<br>• Yn dilyn trafodaethau yng nghyfarfod y Cyd-bwyllgor a gynhaliwyd ar 25 Tachwedd, fod y papur yn rhoi manylion ariannol pellach, manylion risgiau a chynllun gweithredu ar gyfer y tri maes a nodwyd ar gyfer capio gweithgarwch, sef:<br>  ○ Cyfyngu ar weithgarwch dewisol trwy reoli gweithgarwch ar gyfer contractau darparwyr Lloegr yn ystod Chwarter 4.<br>  ○ Rhoi'r gorau'n gynnar i Gontract Llawfeddygaeth Gordewdra Salford.<br>  ○ Mae Byrddau iechyd yn pasio trwy gyfleoedd effeithlonrwydd costau.<br>• Roedd risgiau ac effeithiau lefel uchel wedi'u hystyried yn fanwl.<br>• Oedi ar gyfer cleifion dewisol, gan ail-sicrhau capasiti yn y dyfodol.<br>• Cynhwyswyd Asesiad Effaith Ansawdd ar ymgymryd â'r camau gweithredu a byddai'n parhau i gael ei fireinio yn amodol ar gymeradwyo cynigion.<br>• Os caiff ei gymeradwyo, mae'r camau nesaf yn cynnwys trafodaethau brys gyda darparwyr.<br><br>Trafododd yr aelodau:<br>• Y gwaith a wnaed gan y tîm i ddatblygu'r adroddiad hwn<br>• Effaith bosibl y cynigion dros weddill misoedd y flwyddyn ariannol ac i mewn i 2026/27 a'r tu hwnt ar gyfer gweithgarwch wedi'i oedi.<br>• Yr her ariannol a'r risg sylweddol i gydweithwyr y Bwrdd Iechyd a oedd wedi dylanwadu ar gynigion.<br>• Gohebiaeth â Llywodraeth Cymru mewn perthynas â sefyllfa ariannol CBCGC.<br>• Cynnig gan Fwrdd Iechyd Addysgu Poys i rannu dysgu o weithgareddau tebyg yr oedd wedi'u cynnal yn ystod y flwyddyn.<br>• Yr angen i ddechrau datblygu cynllun gweithredu ar gyfer blwyddyn ariannol 2026-27 gan gynnwys rheoli galw i dargedu meysydd posibl ar gyfer arbed ariannol ar ddechrau'r flwyddyn, yn hytrach nag yn ystod y flwyddyn. Byddai trafodaethau ynghylch Bwriadau Comisiynu CBCGC yn cael eu trefnu cyn diwedd y flwyddyn, ac mae'r Aelodau'n cydnabod y gallai fod angen cyfranogiad Llywodraeth Cymru ar rai opsiynau.<br>• Er bod cynigion yn cael eu cefnogi, roedd angen bod yn ofalus am lwyddiant tebygol cyflawni'r rhain cyn diwedd y flwyddyn o ystyried y cyfyngiadau amser. |

CONFIRMED

| Cyf y Cofnod | Eitem ar yr Agenda |
|---|---|
| | **Cam gweithredu:** Arweinwyr Cyllid a Chomisiynu CBCGC i ddod â chynllun gweithredu manwl yn ôl i reoli risg ariannol o fewn y Cynllun Tymor Canolig Integredig.<br><br>• Yr angen i barhau â'r gwaith sy'n ymwneud â rheoli atgyfeirio a thegwch mynediad at wasanaeth, gan gydnabod bod angen cyflymu hyn lle bo'n bosibl.<br>• Byddai dull cyfredol CBCGC o reoli atgyfeirio yn cydredeg mwy â rheoli contractau traddodiadol na chomisiynu.<br>• Gweithio gyda Llywodraeth Cymru i drafod y dull o gynnal sgyrsiau comisiynu a chyflafareddu gyda NHS England.<br>• Yr angen i ystyried y llwybr ar gyfer Mersi a Gorllewin Swydd Gaerhirfryn (darparwr llawfeddygaeth blastig ar gyfer Gogledd Cymru) a'r goblygiadau i Fyrddau Iechyd.<br>• Yr Asesiad o'r Effaith ar Ansawdd a gynhaliwyd a'r angen i fod yn glir am effaith y cynigion, gan gydnabod y byddai'r asesiad yn cael ei fireinio yn dilyn sgyrsiau pellach gyda darparwyr i gytuno ar gynlluniau cyflawni.<br>• Cyfrifoldeb y Cyd-bwyllgor i wneud penderfyniadau anodd, gyda'r penderfyniad i'w wneud yn gosod cynsail ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf.<br>• Nid oedd y cynigion yn cyflwyno penderfyniad sy'n hawdd i'w wneud, gan gydnabod y risg glinigol gysylltiedig. Nodwyd bod y cynigion wedi ceisio lleihau'r risg glinigol trwy ddatblygu eithriadau allweddol a fyddai'n cael eu cymhwyso i leihau'r effaith gyffredinol ar ganlyniadau cleifion gan gynnwys parhau i flaenoriaethu achosion canser, paediatreg a gofal brys.<br>• Yr angen i symud ymlaen â'r cynllun gwaith fel y gofynnwyd amdano yn yr adroddiad.<br>• Byddai cyflwyno'r cynlluniau arfaethedig yn cael ei drafod ymhellach yn yr Is-bwyllgor Cynllunio, Perfformiad a Chyllid ar 18 Rhagfyr.<br>• Byddai'r adroddiadau cynnydd yn destun adrodd trwy'r Cydbwyllgor.<br><br>*[Gadawodd y Cadeirydd y cyfarfod am 10:11am, cymerodd PW gyfrifoldeb fel Cadeirydd i gau'r cyfarfod]*<br><br>**Cam gweithredu:** Adroddiadau cynnydd i'w rhannu yng nghyfarfodydd y Cydbwyllgor yn y dyfodol.<br><br>Penderfynodd y Cyd-bwyllgor Comisiynu:<br>• **Ystyried** yr wybodaeth ariannol a gwasanaeth ychwanegol a ddarparwyd.<br>• **Adolygu** y cynllun gwaith a nodwyd yn y papur.<br>• **Ystyried** pob elfen o'r cynllun.<br>• **Darparu** cymeradwyaeth i fwrw ymlaen â'r cynllun gwaith arfaethedig. |
| | **3. Dod â'r Cyfarfod i Ben** |
| JCC25/104 | **3.1 Unrhyw faterion eraill**<br>Nid oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod. |
| JCC25/105 | **3.2 Adolygiad o'r Cyfarfod**<br>Ni roddwyd unrhyw adolygiad o'r cyfarfod yn ystod y cyfarfod. |
| JCC25/106 | **3.3 Dyddiad y Cyfarfod Nesaf**<br>Trefnwyd y cyfarfod arferol nesaf ar gyfer 27 Ionawr 2026. |

Daeth y cyfarfod i ben am 10.16.

CONFIRMED